**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL RHITHIOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 21/05/2020**
**AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones holl yn bresennol, i'r Cyfarfod. Datganwyd llongyfarchion i'r Gyngh. Laura Jones a'i phartner Wyn, ar enedigaeth eu mab yn ddiweddar, sef Rhydian Gareth Davies. **CYTUNWYD** i gyfleu cyfarchion gorau'r Cyngor Cymuned.

Cytunwyd i ohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan nos Iau 16eg o Orffennaf 2020.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Cyngh. John Jones; y Cyngh. Gareth Owen (Dirprwy-Gadeirydd), Y Cyngh. Doug Rowbotham; Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies & Eleri Thomas (Clerc).

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Gyngh. Clare Hughes (anawsterau'n ymwneud â'r cyfrifiadur), y Gyngh. Laura Jones (yn yr ysbyty); y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd); y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Alun Price Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd) am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Heb fod yn bresennol.

**5. DATGAN DIDDORDEB**

**5.1** **Y Cynghorydd Gareth Owen** pan drafodwyd y Cais Cynllunio canlynol: Rhif y Cais: A200306: Ymgeisydd: G&D Owen & Kefe. Lleoliad: 1 Bwlch Y Graig, Pontrhydfendigaid, SY25 6BU. Cynnig: Amrywio amod 2 y caniatâd cynllunio A051066.

**6. CADARNHAU CYFARFOD O'R 19eg O FAWRTH 2020**
**CYNIGIWYD** (y Cyngh. John Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Gareth Owen) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y 19eg o Fawrth 2020, yn gywir.

**CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG O'R 20FED IONAWR 2020**
Cytunwyd yn unfrydol bod cofnodion y cyfarfod arbennig o'r 20fed Ionawr 2020 yn gywir.
Llofnodir fel cofnod cywir, gan y Cadeirydd, pan fydd amgylchiadau'n caniatau.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1** **Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg trwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion

tresmasu os dymunir. Bydd y Gyngh. Clare Hughes yn gofyn i Mr Tom Gilbert os yw'r tanc wedi'i dynnu o'r ardal. *Dim datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn.*

**7.2 Coed sy'n tyfu yn agos i brif bont, Glan-yr-Afon**: mater mewn llaw gyda'r Cynghorydd Doug Rowbotham.

**7.3 Aelodaeth Pwyllgorau'r Pentref:** *ni drafodwyd yn ystod y cyfarfod hwn.*

**7.4 NODI DIWRNOD BUDDUGOLIAETH EWROP: 8FED O FAI 2020 (70 o Flynyddoedd):** Adroddodd y Cynghorydd John Jones fod llawer o drigolion wedi codi gwydraid, tu allan i'w heiddo ar ddydd Gwener 8fed Mai 2020, i nodi'r Digwyddiad.

**7.5 Trwsio'r Fainc, Ffair Rhos:** *ni drafodwyd yn ystod y Cyfarfod.*

**7.6 Torri Gwair o gwmpas dros fisoedd yr haf**: Gwobrwywyd y cytundeb i Mr D Benjamin, Contractwyr Torri Glaswellt, Iard Glo, Ffordd yr Orsaf, Tregaron yn ystod y cyfarfod blaenorol. Adroddwyd bod un toriad wedi'i wneud. Cydlynydd y gwaith ar ran y Cyngor Cymuned yw'r Cyngh. Wil Lewis.

**7.7 COVID-19**

**DU wedi Cloi-Lawr ers y 23ain Mawrth 2020 mewn ymgais i atal y Covid-19 rhag lledaenu.** Gosododd y Gweinyddwr y Gynghorydd Laura Jones Grŵp WhatsApp mewn lle ar ran y Cyngor Cymuned a Grŵp WhatsApp / Facebook pellach ar gyfer y Pentref. Gall unigolion sy'n hunan-ynysu ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hyn, i dderbyn cymorth. Arddangoswyd poster yn y Siop i unigolion, heb ddefnydd o'r rhyngrwyd. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr allanol yn ogystal ag aelodau'r Cyngor Cymuned i gynorthwyo â siopa, casglu meddyginiaeth ac i gynnig cysylltiad cymdeithasol dros y ffôn, dulliau electronig neu wrth arsylwi ar fesurau pellhau cymdeithasol.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Arolygiad Chwarae 2020 ROSPA (Cymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau) 2020: Ardal Chwarae Pantyfedwen**

Mae'r arolygiad wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2020.

Adolyga ROSPA'n barhaus cyngor y llywodraeth mewn perthynas â gwaith yn ymwneud â meysydd chwarae, cadw pellter cymdeithasol ac arferion hylendid yn ogystal ag ymwneud ag archwiliadau ôl-osod a blynyddol o feysydd chwarae yn ystod yr Argyfwng COVID-19. Nid yw meysydd chwarae'n agored i'r cyhoedd ar hyn o bryd ond mae'r llywodraeth yn caniatau gwaith ar safleoedd, gan gynnwys archwiliadau; mae'n ofynnol bod gwaith o'r newydd yn cael ei lofnodi'n gywir a bod safleoedd yn cael eu gadael mewn cyflwr diogel. Mae hefyd yn hanfodol bod meysydd chwarae yn cael eu harchwilio i sicrhau diogelwch parhaus defnyddwyr, o gofio y gellir rhagweld camddefnydd rhesymol gan blant ac eraill yn ystod yr amser heriol hwn.

**Arolwg Wythnosol Ardaloedd Chwarae**

Mae'r Gymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau'n cynnig rhestr wirio arferol wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer safle(oedd). Y gost yw £30 ynghyd â TAW /ardal. Darperir templed i gynorthwyo wrth archwilio offer.

Pe bai aelodau'r Cyngor Cymuned yn dymuno cyfarfod â'r Arolygydd yn ystod yr arolygiad, mae yna ffi ychwanegol o £42.00 + TAW am apwyntiad. Nid yw'r ffi hon yn berthnasol i ysgolion, meysydd chwarae â staff na'r safleoedd hynny sydd â mynediad cyfyngedig.

Adroddwyd bod y parc ar glo ar hyn o bryd.

**8.2 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – DATGANIAD BLYNYDDOL**

Mae'n ofyniad statudol fod pob Cyngor yn cyflwyno'r datganiad blynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 30ain o Fedi 2020 ar yr hwyraf.

Bydd methu cyflwyno'r datganiad blynyddol yn golygu fod y Cyngor Cymuned wedi methu cydymffurfio â gofyniad statudol. Hyd yn oed os na wnaeth unrhyw un o'r aelodau geisiadau mae angen o hyd gyflwyno datganiad yn cyfleu megis "DIM". **PENDERFYNWYD** cyflwyno'r ffurflen yn datgan "Dim Taliadau" ar gyfer y Cadeirydd a'r Cynghorwyr yn ystod y Flwyddyn Ariannol 2019-20= £0.

**8.3 CANLLAWIAU AR GYFER CEFNOGI CYFARFODYDD A GYNHELIR O BELL**

**Canllawiau Un Llais Cymru** ar sut i gael y gorau allan o gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau a gynhelir o bell: nodwyd er gwybodaeth.

**8.4 Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

**9. CYLLID**

**9.1 Cynhaliwyd cyfarfod brys o'r Cyngor Cymuned ar ddydd Llun 20fed Ionawr 2020** i drafod sut y gallai'r Cyngor Cymuned helpu rhieni Shaun ac Erin Harvey o ganlyniad i drasiedi carafan yn Ffair Rhos ar y 19.01.2020 pan gollodd Zac Harvey 3 mlwydd oed ei fywyd a gadael ei frawd Harley mewn cyflwr critigol.
Cytunwyd cyfrannu £500 ar gyfer y costau teithio o/i'r ysbyty @ £0.45 y filltir. Cytunwyd yn ystod y cyfarfod hwn i wneud taliadau 4 x £125 i'r 4 brif barti. Bydd angen tystiolaeth wedi'i arwyddo. (Taenlen wedi arwyddo) cyn rhyddhau'r swm o arian. **CYTUNWYD:** Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies i symud y mater yn ei flaen.

**9.2 Archwiliad Allanol Grant Thornton 2019 -20:** Trafodwyd hyn a gellid adolygu o bosibl, dyddiadau penodedig yng ngoleuni'r Pandemig Covid-19. Y Clerc i ddarganfod mwy o wybodaeth. Gellir gweld dogfennau sy'n berthnasol i Gyfrifon 2019-20 Cyngor Cymuned Ystrad Fflur
[http://www.ccystradfflurcc.org.uk/2019-20](http://www.ccystradfflurcc.org.uk/2019-20)

**9.3 Archwiliad Cyffredinol Cymru:** Archwiliad Mewnol 2019-20. i gysylltu ag Enid Hughes ynghylch yr Archwiliad Mewnol.

**9.4** **Clerc Ebrill 2020**: Cyflog y £193.83 (Cyflog Gross).

**9.5** **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir. *Yn disgwyl taliad.*

**9.6** **Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfod y dyfodol.

**9.7** **Zurich Municipal**: Anfoneb: Yswiriant y Cyngor Cymuned 1.06.2020-31.05.2020 £492.12.

**9.8** **Cofrestr Asedau y Cyngor Cymuned 2020:** wedi'i adolygu. (ar gael ar safle ar y we'r Cyngor Cymuned)

**9.9** **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapheia**: yn cael ei gwobrwyo yn arferol i ddisgybl Ysgol y Bont yn ystod y Seremoni Diwrnod Gwobrwyo. Y Cynghorydd Angharad Jones i ddarganfod os bydd yn mynd yn ei flaen eleni, gan fod yr ysgol ar gau ar hyn o bryd oherwydd yr argyfwng COVID-19.

**9.10** **Asesiad Risg Ariannol y Cyngor Cymuned:** wedi'i adolygu.

## 10. CYNLLUNIO

**10.1** **Cais Cynllunio: A200306. Ymgeisydd:** G & D Owen & Kefe. **Lleoliad:** 1 Bwlch Y Graig, Pontrhydfendigaid, SY25 6BU. **Bwriad:** Amrywio Amod 2 Cais Cynllunio A051066.
**Sylwadau:** Mae'r Cyngor Cymuned yn hollol gefnogol i'r Cais.

**10.2** **Cais Cynllunio: A200007: Lleoliad**: Rock House, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6BL. **Bwriad:** Codennau gwersylla newydd. **Sylwadau'r Cyngor Cymuned (a gyflwynwyd ychydig o fisoedd yn ôl)**: "Mae'r Cyngor Cymuned yn mynegi consyrn diogelwch mewn perthynas â'r cynnydd mewn traffig a ragwelir yn ardal Rock House ac yn debygol o wrthdaro ag amcanion y Prosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol".
Adroddodd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies fod y Cyngor Sir eisoes wedi caniatau'r cais.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 7.40 pm.**

## 11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 18fed Mehefin 2020 @ 7pm.

=================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad)